# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

**EUR(3)-14-10-p2 : 19 Hydref 2010**

# Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cyfranogiad Cymreig mewn rhaglenni ymchwil, arloesedd a dysgu gydol oes UE

Bydd y papur hwn yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo ystyried cyfranogiad Cymreig o fewn Rhaglen Dysgu Gydol Oes (RhDGO) UE.  Yn y DU, rhennir y gwaith o reoli RhDGO rhwng dau sefydliad – y Cyngor Prydeinig ac Ecorys (ECOTEC yn flaenorol).  Llwyddodd Ecorys i sicrhau'r contract i weithredu fel Asiantaeth Genedlaethol y DU ar gyfer Rhaglenni Leonardo, Grundtvig a Transversal yn 2007, ac fe fydd yn rheoli'r rhaglenni tan 2013.  Fel yr Asiantaeth Genedlaethol, ein rôl ni yw hyrwyddo, gweinyddu a dosbarthu cronfeydd i sefydliadau yn y DU.  Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y papur hwn yn cynnig trosolwg o gyfranogiad sefydliadau o Gymru yn y rhaglenni hyn.

**Y Cyd-destun yn y DU**


Mae cyllideb gyfan gwbl RhDGO yn werth bron i €7 biliwn ar gyfer y cyfnod rhwng 2007 a 2013.  Mae'r DU yn cael ychydig dan €80 miliwn o hwn bob blwyddyn, a rhoddir dadansoddiad o swm y cyllid a fydd yn cael ei neilltuo i bob rhaglen yn ystod 2010 isod:

| **Cyllideb y DU ar gyfer 2010** | **€75.95 miliwn** |
|---|---|
| Comenius | €14.9 miliwn |
| Erasmus | €36.4 miliwn |
| Leonardo | €21.2 miliwn |
| Grundtvig | €3 miliwn |
| Transversal | €343,000 |

*Galw cynyddol ymhlith ymgeiswyr*

Mae nifer y ceisiadau a gyflwynwyd ar draws rhaglenni Leonardo, Grundtvig a Transversal wedi cynyddu'n sylweddol ers y sefydlwyd RhDGO yn 2007 (gweler graff 1 isod).  O ystyried nifer y ceisiadau a gafwyd yn ystod 2007 (589) o'u cymharu gyda'r nifer a gafwyd yn ystod 2009 (1,635), gwelwyd cynnydd o 177% yn nifer y ceisiadau a gafwyd ar draws y dair rhaglen.

*Graff 1 – ceisiadau a gyflwynwyd ar draws y DU 2007-2009*




**Ceisiadau a gyflwynwyd ar draws y DU**

**Nifer y Prosiectau**
**Blwyddyn**

*Annog symudedd cyfranogwyr yn y DU*
Er 2007, rydym wedi cynorthwyo 20,000 o ddysgwyr, prentisiaid, gwirfoddolwyr, athrawon a hyfforddwyr ar draws y DU i gymryd rhan mewn lleoliadau symudedd mewn gwlad Ewropeaidd arall.  Mae hyn wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o gyflawni amcanion strategol y Rhaglen Dysgu Gydol Oes, sy'n ceisio cynnig mwy o gyfleoedd i fanteisio ar gyfleoedd dysgu neu gyflogaeth mewn gwahanol wledydd, gan annog mwy o symudedd i unigolion, busnesau a sefydliadau eraill.

*Amrywiaeth y partneriaethau Ewropeaidd*
Mae Rhaglenni Leonardo, Grundtvig a Transversal yn annog cydweithrediad rhwng ystod eang o sefydliadau sy'n gweithio ym maes dysgu gydol oes ar draws Ewrop.  Er enghraifft, gwelwyd 29 o sefydliadau o'r DU yn ffurfio partneriaethau gydag oddeutu 170 o sefydliadau o bob cwr o Ewrop, gan lwyddo i sicrhau cyllid Trosglwyddo Arloesedd Leonardo yn ystod 2009. Mae'r rhain yn cynnwys darparwyr addysg a Hyfforddiant galwedigaethol (AHG), awdurdodau cyhoeddus rhanbarthol, gan gynnwys cyrff gwirfoddol a sefydliadau anllywodraethol (NGOs) a busnesau bach a chanolig (BBaCh).


Ar nodyn cadarnhaol, mae nifer uchel iawn o'r ceisiadau a gyflwynir bob blwyddyn yn cael eu cyflwyno gan sefydliadau nad ydynt wedi cael unrhyw gyswllt blaenorol gyda'r rhaglenni, ac fel enghraifft, yn 2009, roedd 63% o'r ceisiadau a gyflwynwyd i Leonardo, 70% o'r ceisiadau a gyflwynwyd i Grundtvig a 93% o'r ceisiadau a gyflwynwyd i Transversal, yn geisiadau a gyflwynwyd gan sefydliadau neu ymgeiswyr unigol nad oeddent wedi cael cyllid dan y rhaglenni hyn yn flaenorol.

Law yn llaw gydag agenda polisi y DU a Phenderfyniad RhDGO sy'n nodi'r angen i ehangu'r rhaglen i grwpiau difreintiedig, mae Ecorys wedi hyrwyddo'r ffaith bod blaenoriaeth yn cael ei roi i geisiadau sy'n targedu cyfranogwyr sy'n wynebu anawsterau penodol yn y farchnad lafur. O ganlyniad, rydym wedi cael nifer fawr o geisiadau gan sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau difreintiedig a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar draws rhaglenni Leonardo a Grundtvig.

**Y Cyd-destun Cymreig**

Er 2007, mae nifer y ceisiadau a gymeradwywyd wedi bod yn hynod o iach. Mae Graff 2 yn amlinellu nifer y ceisiadau a ariannwyd yng Nghymru rhwng 2007 a 2009 ar draws y dair rhaglen:

*Graff 2 – ceisiadau a ariannwyd yng Nghymru 2007 - 2009*




**Ceisiadau a ariannwyd yng Nghymru 2007 – 2009**
**Nifer y Prosiectau**
**Blwyddyn**

Yn ogystal, mae'n hynod o galonogol nodi bod swm y cyllid sy'n cael ei roi i sefydliadau yng Nghymru yn uwch na'r disgwyl o ystyried y ffaith bod Cymru yn cynrychioli oddeutu 5% o boblogaeth y DU. Mae tabl 1 isod yn amlinellu'r ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer pob rhaglen, swm y cyllid a ddyfarnwyd a chanran cyllideb y rhaglen a neilltuwyd i sefydliadau o Gymru yn ystod 2009.

*Tabl 1 – Trosolwg o geisiadau Cymreig a gymeradwywyd a'r cyllid a ddyfarnwyd iddynt yn ystod 2009*

| Rhaglen | Ceisiadau am gyllid o Gymru, a gymeradwywyd | Cyllid a ddyfarnwyd (€) | % o gyllideb gyffredinol y rhaglen |
|---|---:|---:|---:|
| Leonardo | 27 | 1,678,243.06 | 7.49% |
| Grundtvig | 28 | 314,448.50 | 10.9% |
| Transversal | 21 | 24,463.00 | 6.69% |

**Ein dull gweithredu yng Nghymru**
Mae Ecorys yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r rhaglenni yng Nghymru. Rydym yn cynnal Grŵp Cynghori i Gymru sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn yng Nghaerdydd ac sy'n caniatáu i ni gynnal perthnasoedd gwaith agos a chynhyrchiol gyda llunwyr polisi, budd-ddeiliaid a phrosiectau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfrannu at y Grŵp Cynghori ers iddo gael ei sefydlu ym mis Mehefin 2007. Mae'r Grŵp Cynghori yn cael diweddariadau ynghylch swm y cyllid a roddir i Gymru dan raglenni Leonardo, Grundtvig a Transversal, gan gynghori'r Asiantaeth Genedlaethol ynghylch sut i wella'r gweithgarwch i hyrwyddo'r rhaglenni yng Nghymru.

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal Diwrnod Gwybodaeth a Sesiwn Gynghori yng Nghymru, mewn lleoliadau a awgrymir gan y Grŵp Cynghori. Er enghraifft, cynhelir Diwrnod Gwybodaeth 2010 yn Llandudno ym mis Tachwedd, lle'r ydym yn gobeithio annog ceisiadau o ranbarth Gogledd Cymru. Mae'r taflenni yr ydym yn eu cynhyrchu er mwyn hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael dan bob rhaglen ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a byddwn yn paratoi deunyddiau hyrwyddo penodol i Gymru hefyd, megis pen ysgrifennu i Gymru. Mae gwybodaeth sylfaenol am y rhaglenni ar gael yn Gymraeg ar ein gwefannau ar gyfer y rhaglenni, a byddwn yn sicrhau bod y Canllawiau i Gynadleddwyr ar gyfer ein Diwrnodau Gwybodaeth yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Yn ogystal, rydym wedi cynhyrchu ffilm sy'n cynnwys astudiaethau achos o brosiectau yng Nghymru ac mae hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg – mae modd gweld y ffilm trwy droi at www.leonardo.org.uk.

Ym mis Tachwedd 2010, byddwn yn cynnal Digwyddiad Rhwydweithio Thematig yng Nghymru, gan ddwyn ynghyd llunwyr polisi, budd-ddeiliaid a phrosiectau er mwyn trafod polisïau ac arferion addysg a hyfforddiant yng Nghymru, ac ar hyn o bryd, rydym yn ceisio trefnu y bydd rhywun o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu bod yno i siarad. Yn dilyn hyn, byddwn yn postio deunydd at yr Aelodau Seneddol Cymreig, a fydd yn rhoi manylion iddynt am y ffordd y mae'n rhaglenni yn cynorthwyo sefydliadau Cymreig – bydd pob AS yn cael map o'u hetholaeth a fydd yn nodi'r prosiectau a ariannir, manylion ynghylch swm y cyllid a ddyfarnwyd i'w hetholaeth a thaflen a fydd yn cynnwys astudiaethau achos a gwybodaeth am ein rhaglenni. Yn ddiweddar, anfonwyd y math hon o wybodaeth at Aelodau Seneddol yn yr Alban, ac fe'i gwerthfawrogwyd.

Rydym yn hynod o falch o'r ffaith y cyfeiriwyd ddwywaith at Ecorys a'r Rhaglen Dysgu Gydol Oes yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2009 sef "World Class Wales", sy'n nodi ei Fframwaith Strategol Addysg Rhyngwladol. Cyfeirir at RhDGO dan un o'r bedair thema strategol a nodir yn y ddogfen: Dysgu ar gyfer Byd Byd-eang: Gwella Cyflawniad, Sgiliau a Lles. Yn wir, mae parhau i gydweithio'n agos gyda'r Cyngor Prydeinig ac Ecorys i hyrwyddo rhaglen RhDGO yn un o'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer APADGOS rhwng 2008 a 2012.

**Rhaglen Leonardo**
Mae rhaglen Leonardo yn canolbwyntio ar wella ansawdd a perthnasedd Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG). Mae'n cynnig cyfleoedd cyffrous i sefydliadau sy'n ymwneud ag AHG i greu partneriaethau Ewropeaidd, i gyfnewid arfer gorau, i gynyddu arbenigedd eu staff ac i feithrin sgiliau dysgwyr. Mae cyfranogiad sefydliadau Cymreig o fewn Rhaglen Leonardo wedi cynyddu er 2007, fel y mae graff 2 uchod yn dangos, gyda sefydliadau yn sicrhau llwyddiant arbennig o fewn rhaglenni Symudedd a Phartneriaeth Leonardo.

Mae modd rhannu'r rhaglen yn sawl math gwahanol o brosiectau:

**Prosiectau Symudedd** sy'n caniatáu i sefydliadau anfon myfyrwyr neu staff sy'n ymwneud ag Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol i wlad Ewropeaidd arall ar leoliad profiad gwaith neu i fanteisio ar gyfleoedd cysgodi gwaith. Mae'r tabl isod yn cynnig dadansoddiad o nifer a chanran y ceisiadau a gymeradwywyd ar draws y DU:

*Tabl 2 – Prosiectau symudedd*

| | **Cyfanswm** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | **152**<br>**100%** | 4<br>3% | 110<br>72% | 13<br>9% | 25<br>16% |
| 2008 | **127**<br>**100%** | 8<br>6% | 92<br>72% | 11<br>9% | 16<br>13% |
| 2009 | **167**<br>**100%** | 16<br>10% | 119<br>71% | 10<br>6% | 22<br>13% |
| 2010 | **161**<br>**100%** | **15**<br>**9%** | 112<br>70% | 11<br>7% | 23<br>14% |

Mae nifer y ceisiadau gan sefydliadau Cymreig ac yr argymhellwyd y dylid eu cefnogi wedi codi'n sylweddol dros y bedair blynedd ddiwethaf, ac rydym yn falch bod mesur Symudedd Leonardo bellach wedi sefydlu'n gadarn yng Nghymru. Fel blaenoriaeth i'r dyfodol, ein nod yw annog rhagor o brentisiaid i gymryd rhan yn y rhaglen.

Mae **Prosiectau Trosglwyddo Arloesedd** yn brosiectau Ewropeaidd mawr sy'n rhedeg am ddwy flynedd ac sy'n canolbwyntio ar drosglwyddo canlyniadau prosiectau llwyddiannus (nid prosiectau Leonardo o reidrwydd) i wledydd eraill a grwpiau targed eraill. Mae'r tabl isod yn cynnig dadansoddiad o nifer a chanran y ceisiadau a gymeradwywyd ar draws y DU:

*Tabl 3 – Prosiectau Trosglwyddo Arloesedd*

| | **Cyfanswm** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | **26**<br>**100%** | 3<br>11% | 20<br>77% | 1<br>4% | 2<br>8% |
| 2008 | **29**<br>**100%** | 0<br>0% | 23<br>82.7% | 5<br>17.3% | 0<br>0% |
| 2009 | **29**<br>**100%** | **2**<br>**7%** | 24<br>83% | 2<br>7% | 1<br>3% |
| 2010 | **29**<br>**100%** | **1**<br>**3%** | 25<br>87% | 2<br>7% | 1<br>3% |

Mae dewis ceisiadau Trosglwyddo Arloesedd yn broses hynod o gystadleuol, er enghraifft, roedd y gyfradd lwyddo ar gyfer Rownd Ddethol 2010 yn 34%, gyda 29 o'r 84 o geisiadau am gyllid yn cael eu cymeradwyo. Roedd mwyafrif y ceisiadau a gymeradwywyd yn dod o Loegr ac mae'r cyfranogiad yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn isel yn gyson. Mae'n anodd pennu'r rhesymau dros hyn, er yng Nghymru, gallai hyn fod o ganlyniad i'r ffaith bod cyllid ar gael trwy gyfrwng y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglenni Datblygu Gwledig.

Mae **prosiectau partneriaeth (newydd yn 2008)** yn galluogi o leiaf dri phartner o wahanol wledydd i gymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol bach sy'n canolbwyntio ar thema gyffredin. Mae'r tabl isod yn cynnig dadansoddiad o nifer a chanran y ceisiadau a gymeradwywyd ar draws y DU:

*Tabl 4 – Partneriaethau*

| | **Cyfanswm** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2008 | **55**<br>**100%** | 5<br>9% | 39<br>71% | 8<br>15% | 3<br>5% |
| 2009 | **68**<br>**100%** | **4**<br>**6%** | 46<br>68% | 6<br>9% | 12<br>17% |
| 2010 | **67***<br>**100%** | **6**<br>**9%** | 46<br>69% | 8<br>12% | 6<br>9% |

**Yn ogystal, cyflwynwyd a chymeradwywyd 1 cais am gyllid gan un o diriogaethau tramor y DU (St Helena)*

Gwelwyd cynnydd cyson yn nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yng Nghymru bob blwyddyn. Mae'r prosiectau hyn yn arbennig o ddeniadol i sefydliadau y mae cyllid Ewropeaidd yn brofiad newydd iddynt, gan eu bod yn hawdd i'w rheoli, maent yn canolbwyntio ar broses o gydweithrediad Ewropeaidd, ac maent yn cynnwys cyfleoedd i staff a dysgwyr ymweld â gwledydd partner.

Mae **Ymweliadau Paratoadol** yn cynnig symiau bach o gyllid (1,000 ewro fel arfer) er mwyn caniatáu i sefydliadau fynychu digwyddiadau arbennig er mwyn darganfod partneriaid Ewropeaidd newydd, neu er mwyn cyfarfod gyda phartneriaid presennol i ystyried eu cais am gyllid Partneriaeth, Trosglwyddo Arloesedd neu Symudedd. Cyflwynir ceisiadau dan drefniant treigl trwy gydol y flwyddyn.

*Tabl 5 – Ymweliadau Paratoadol*

| | **Cyfanswm** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | **48**<br>**100%** | 3<br>6% | 37<br>77% | 5<br>11% | 3<br>6% |
| 2008 | **101**<br>**100%** | 4<br>4% | 73<br>72% | 11<br>11% | 13<br>13% |
| 2009 | **110**<br>**100%** | **5**<br>**5%** | 89<br>81% | 10<br>9% | 6<br>5% |
| 2010<br>(hyd yn hyn) | **20**<br>**100%** | **-** | 16<br>80% | 1<br>5% | 3<br>15% |

**Mae gan Ymweliadau Paratoadol ddyddiad cau treigl tan fis Rhagfyr 2010.*

Unwaith eto, gwelwyd cynnydd cyson yn nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yng Nghymru bob blwyddyn.  Derbynnir ceisiadau Ymweliadau Paratoadol dan drefniant treigl ac mae'r gwaith asesu yn parhau ar hyn o bryd.  Mae'n arferol i fwyafrif y ceisiadau Ymweliadau Paratoadol gael eu cyflwyno yn hwyr yn ystod yr hydref, yn dilyn ein digwyddiadau hyrwyddo a gynhelir ar draws y DU, ac rydym yn gobeithio annog rhagor o geisiadau o Gymru yn ystod rhan olaf y flwyddyn.

**Astudiaethau Achos**

Mae'r rhaglen yn dwyn amrediad eang o fanteision i sefydliadau yng Nghymru, ac isod, nodir enghreifftiau o rai o'r llwyddiannau a welwyd yng Nghymru:

Aeth Sarah McCall, graddedig Pensaer Mewnol o Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd, ar leoliad gwaith Symudedd a drefnwyd gan ECTARC, gyda chwmni pensaernïaeth fasnachol rhyngwladol yn Ffrainc.  Dywedodd "Roeddwn i wedi bod heb waith ers 9 mis, ers i mi sicrhau gradd mewn Pensaernïaeth Fewnol yn Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd.  Er fy mod wedi cyflawni rhai prosiectau llawrydd, roeddwn yn awyddus i ddechrau gweithio ac i gychwyn ar fy ngyrfa broffesiynol fel Pensaer Mewnol – cyfle yr oedd modd i'r rhaglen ei gynnig i mi, ynghyd â'r fantais ychwanegol o weithio mewn diwylliant newydd ac o wella fy sgiliau Ffrangeg.  Bûm yn gweithio ar amrywiaeth o brosiectau, gan gynhyrchu dyluniadau a chysyniadau a gomisiynwyd i'w hadeiladu ar gyfer pedwar cwmni ar draws Ewrop – ym Mharis, Frankfurt, Amsterdam a Bologna".

Bu Dr Dean Stroud o Brifysgol Caerdydd yn cymryd rhan mewn prosiect Trosglwyddo Arloesedd a oedd yn ceisio gwella hyfforddiant amrywiaeth a chydraddoldeb yn y diwydiant dur ar draws Ewrop.  Nododd mai'r "prif fantais oedd y cyfleoedd rhwydweithio, nid yn unig gyda'r partneriaid ond gyda'r rhwydweithiau sydd ganddynt.  Mae hyn yn hanfodol ar gyfer y sefydliad yr ydw i'n gweithio iddo, oherwydd bod angen i ni allu troi at nifer fawr o wahanol sefydliadau at ddibenion ymchwil."

**Rhaglen Grundtvig**

Nod rhaglen Grundtvig yw cryfhau addysg i oedolion a dysgu gydol oes ar draws Ewrop, ac mae'n cynnig cyfleoedd sy'n gallu gweddnewid bywyd unrhyw un sy'n ymwneud ag addysg i oedolion.  Mae rhaglen Grundtvig yn ariannu ystod o weithgareddau sy'n gysylltiedig gyda sgiliau sylfaenol, dinasyddiaeth weithredol, ieithoedd tramor, y celfyddydau a diwylliant, addysg i rieni, addysg mewn carchardai.  Mae cyfranogiad sefydliadau o Gymru yn Rhaglen Grundtvig wedi cynyddu'n gyson er 2007, fel y mae graff 2 uchod yn dangos, ac o gofio bod cyllid pellach ar gael tan ddiwedd y flwyddyn, mae cyfle o hyd i sefydliadau yng Nghymru fanteisio ar gyllid a chymryd rhan mewn amrediad o weithgareddau symudedd.

Rhannwyd y rhaglen yn sawl fath gwahanol o brosiect:

**Prosiectau Partneriaeth** sy'n galluogi o leiaf dri phartner o wahanol wledydd i gymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol bach sy'n canolbwyntio ar thema gyffredin. Fan hyn, mae'r ffocws ar broses o gydweithrediad Ewropeaidd ac ar gynnwys staff a dysgwyr mewn ymweliadau i'r gwledydd partner. Mae'r tabl isod yn cynnig dadansoddiad o nifer a chanran y ceisiadau a gymeradwywyd ar draws y DU:

*Tabl 6 – Partneriaethau*

| | **Cyfanswm** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | **85**<br>**100%** | 8<br>9% | 54<br>64% | 10<br>12% | 13<br>15% |
| 2008 | **94**<br>**100%** | 10<br>11% | 65<br>69% | 6<br>6% | 13<br>14% |
| 2009 | **108**<br>**100%** | **11**<br>**10%** | 78<br>72% | 7<br>7% | 12<br>11% |
| 2010 | **114**<br>**100%** | **6**<br>**5%** | 91<br>80% | 9<br>8% | 8<br>7% |

Gwelwyd nifer y ceisiadau Partneriaeth Grundtvig a gymeradwywyd yng Nghymru yn gostwng o 11 yn 2009 i 6 yn 2010, gan gyfateb â 5% o'r holl brosiectau a gymeradwywyd. Mae modd priodoli'r gostyngiad o ran nifer y ceisiadau yn ystod 2010 i'r newidiadau i'r broses ymgeisio a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, a oedd yn cynnwys cyflwyno ffurflen gais ar-lein. Er bod y gostyngiad hwn yn siomedig, rydym yn gobeithio y bydd y niferoedd yn cynyddu unwaith eto yn 2011, a byddwn yn hyrwyddo hyn yn ystod ein digwyddiad gwybodaeth yn Llandudno.

Mae **Prosiectau Gwirfoddoli Hŷn (newydd yn 2009)** yn galluogi sefydliadau i feithrin perthynas hirhoedlog o gydweithio gyda sefydliad Ewropeaidd arall ar sail thema neu weithgarwch penodol, trwy gyfrwng gwirfoddolwyr hŷn (50+ oed). Mae'r tabl isod yn cynnig dadansoddiad o nifer a chanran y ceisiadau a gymeradwywyd ar draws y DU:

*Tabl 7- Prosiectau Gwirfoddoli Hŷn Grundtvig*

| | **Cyfanswm** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2009 | **12**<br>**100%** | **0**<br>**0%** | 11<br>92% | 0<br>0% | 1<br>8% |
| 2010 | **13**<br>**100%** | **0**<br>**%** | 8<br>61% | 4<br>31% | 1<br>8% |

Fel prosiect cymharol newydd, nid ydym wedi gallu mesur y dymuniad ar gyfer y prosiectau gwirfoddoli hŷn yng Nghymru eto. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gweithredu newydd hwn yng Nghymru trwy gyfrwng ein gweithgareddau gwybodaeth er mwyn ehangu cyfranogiad ac er mwyn annog rhagor o geisiadau.

Mae **Ymweliadau Paratoadol** yn cynnig symiau bach o gyllid (1,000 ewro fel arfer) er mwyn caniatáu i sefydliadau fynychu digwyddiadau arbennig er mwyn darganfod partneriaid Ewropeaidd newydd, neu er mwyn cyfarfod gyda phartneriaid presennol i ystyried eu cais am gyllid Partneriaeth. Cyflwynir

ceisiadau dan drefniant treigl trwy gydol y flwyddyn.  Mae'r tabl isod yn cynnig dadansoddiad o nifer a chanran y ceisiadau a gymeradwywyd ar draws y DU:

*Tabl 8 – Ymweliadau Paratoadol*

| | **Cyfanswm** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | **65**<br>**100%** | 6<br>9% | 43<br>66% | 8<br>12.5% | 8<br>12.5% |
| 2008 | **57**<br>**100%** | 3<br>5% | 37<br>65% | 5<br>9% | 12<br>21% |
| 2009 | **60**<br>**100%** | **5**<br>**8%** | 41<br>68% | 9<br>15% | 5<br>8% |
| 2010<br>(hyd yn hyn) | **6**<br>**100%** | **1**<br>**17%** | 4<br>66% | 1<br>17% | 0<br>0% |

*Mae gan Ymweliadau Paratoadol ddyddiad cau treigl tan fis Rhagfyr 2010.*

Mae nifer y ceisiadau sy'n cael eu cymeradwyo yng Nghymru bob blwyddyn wedi bod yn gymharol gyson ac mae'n newyddion cadarnhaol ein bod wedi cymeradwyo un cais o Gymru ar yr adeg hon yn ystod y flwyddyn.  Mae'n arferol i fwyafrif y ceisiadau Ymweliadau Paratoadol gael eu cyflwyno yn hwyr yn ystod yr hydref, yn dilyn ein digwyddiadau hyrwyddo a gynhelir ar draws y DU, ac rydym yn gobeithio annog rhagor o geisiadau o Gymru yn ystod rhan olaf y flwyddyn.

Grantiau bach yw'r grantiau **Hyfforddiant mewn Swydd** sy'n galluogi sefydliadau i anfon staff sy'n ymwneud ag addysg i oedolion i wlad Ewropeaidd arall er mwyn mynychu cwrs hyfforddi mewn gwlad arall am hyd at chwe wythnos.  Mae'r tabl isod yn cynnig dadansoddiad o nifer a chanran y ceisiadau a gymeradwywyd ar draws y DU:

*Tabl 9 – Hyfforddiant Mewn Swydd*

| | **Cyfanswm** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | **119**<br>**100%** | 9<br>8% | 97<br>81% | 6<br>5% | 7<br>6% |
| 2008 | **174**<br>**100%** | 9<br>5% | 130<br>75% | 8<br>5% | 27<br>15% |
| 2009 | **92**<br>**100%** | **3**<br>**3%** | 68<br>74% | 6<br>7% | 15<br>17% |
| 2010<br>(hyd yn hyn) | **60**<br>**100%** | **1**<br>**2%** | 45<br>75% | 4<br>7% | 10<br>17% |

Mae'r ffigurau a ddangosir ar gyfer 2010 yn cyfeirio at y ddau ddyddiad cau cyntaf ar gyfer Hyfforddiant Mewn Swydd yn ystod 2010, sef 15 Ionawr a 30 Ebrill.  Gan bod tri dyddiad cau y flwyddyn yn bodoli ar gyfer Hyfforddiant Mewn Swydd, nid ydym yn gallu darparu ffigurau 'tebyg at eu tebyg' tan ddiwedd 2010.  Er bod nifer y ceisiadau a gafwyd hyd yn hyn yn ystod 2010 yn cyfateb gyda'r cyfanswm ar gyfer 2009, mae'r gyfradd lwyddo gyffredinol yn is.  Gallai hyn fod o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys y ffurflen gais ar-lein newydd a gyflwynwyd;  y ffaith nad yw oedolion yn ymwneud ag addysg i oedolion mewn ffordd amlwg;  a/neu ansawdd cyrsiau 'addysg i oedolion' yn y gronfa ddata.

Mae **Ymweliadau a Theithiau Cyfnewid (newydd yn 2009)** yn darparu grantiau sy'n galluogi staff sy'n ymwneud ag addysg i oedolion i gysgodi gwaith neu i fynychu cynhadledd neu seminar mewn gwlad Ewropeaidd. Maent yn cynnig cyfle i staff sy'n gweithio gyda dysgwyr sy'n oedolion i wella'u sgiliau ymarferol ac i feithrin dealltwriaeth ehangach o ddysgu gydol oes ar draws Ewrop. Cyflwynir ceisiadau dan drefniant treigl trwy gydol y flwyddyn. Mae'r tabl isod yn cynnig dadansoddiad o nifer a chanran y ceisiadau a gymeradwywyd ar draws y DU:

*Tabl 10 – Ymweliadau a Theithiau Cyfnewid Grundtvig*

| | **Cyfanswm** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2009 | **71**<br>**100%** | 7<br>10% | 46<br>65% | 7<br>10% | 11<br>15% |
| 2010<br>(hyd yn hyn) | **43**<br>**100%** | 4<br>9% | 31<br>72% | 2<br>5% | 6<br>14% |

*Mae gan Ymweliadau a Theithiau Cyfnewid Grundtvig ddyddiad cau treigl.*

Gan bod gan Hyfforddiant Mewn Swydd dri dyddiad cau y flwyddyn, nid ydym yn gallu darparu ffigurau 'tebyg at eu tebyg' tan ddiwedd 2010, ond mae nifer y ceisiadau a gafwyd hyd yn hyn ar gyfer 2010 yn dangos bod cyfran iach iawn o'r ceisiadau a gymeradwywyd yn dod o Gymru, sef 9% ohonynt.

Mae **Gweithdai i Ddysgwyr (newydd yn 2009)** yn ddigwyddiadau dysgu sy'n llawn hwyl ac sy'n dwyn unigolion neu grwpiau bach o ddysgwyr sy'n oedolion o sawl gwlad ynghyd am brofiad dysgu rhyngwladol ac arloesol ynghylch amrywiaeth o bynciau. Gall sefydliadau o'r DU sy'n ymwneud ag addysg i oedolion gynnal gweithdai ar gyfer 10-20 o ddysgwyr o bob cwr o Ewrop. Yn ogystal, mae modd i ddysgwyr gymryd rhan yn y gweithdai a gynhelir mewn gwledydd eraill.

*Tabl 11 – Gweithdai i Ddysgwyr Grundtvig*

| | **Cyfanswm** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2009 | **13**<br>**100%** | 2<br>15% | 11<br>85% | 0<br>0% | 0<br>0% |
| 2010 | **15**<br>**100%** | 0<br>0% | 14<br>9.3% | 1<br>6.7% | 0<br>0% |

Fel math cymharol newydd o brosiect, mae'n anodd cynnig cymariaethau tebyg at eu tebyg unwaith eto, fodd bynnag, roedd yn siomedig na fu modd i ni ariannu gweithdy yng Nghymru eleni. Rydym yn gobeithio y bydd modd annog mwy o ddiddordeb yn y gweithdai ar draws y DU.

Mae **Isddarlithyddiaethau (newydd yn 2009)** yn cynnig cyfle i staff addysg i oedolion i dreulio 3-10 mis fel Cynorthwy-ydd Grundtvig mewn sefydliad mewn gwlad Ewropeaidd arall er mwyn cael profiad ymarferol o weithio mewn gwlad wahanol. Mae'r tabl isod yn cynnig dadansoddiad o nifer a chanran y ceisiadau a gymeradwywyd ar draws y DU:

*Tabl 12 – Isddarlithyddiaethau Grundtvig*

| | **Cyfanswm** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2009 | **3**<br>**100%** | 0<br>0% | 3<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% |
| 2010 | **7**<br>**100%** | 0<br>0% | 7<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% |

Yn gyffredinol, bu'r niferoedd a fanteisiodd ar y gweithredu newydd hwn yn isel ar draws y DU. Mae wedi bod yn anodd dod o hyd i sefydliadau y mae ganddynt ddiddordeb mewn ymgeisio am y mathau hyn o brosiectau oherwydd hyd y cyfnod y disgwylir i unigolyn ei dreulio mewn gwlad dramor. Yn dilyn cynllun gweithredu a ddatblygwyd ac a weithredwyd tuag at ddiwedd 2009 a dechrau 2010 er mwyn ceisio cynyddu nifer y ceisiadau yn ystod 2010, cyflwynwyd nifer uwch o geisiadau eleni. Fodd bynnag, dim ond un cais a gafwyd o Gymru ac yn anffodus, ni chymeradwywyd y cais hwn.

**Astudiaethau Achos**

Bu Jane Booty, Swyddog Addysg Gymunedol yng Nghyngor Caerdydd, yn gweithio gyda phartneriaid o Lithwania, yr Almaen, Sbaen, yr Eidal a Gwlad Belg ar Bartneriaeth Grundtvig a seiliwyd ar adrodd straeon. Dywedodd “Mae'r partneriaethau hyn yn ganolog i'r amcanion o feithrin mwy o ddealltwriaeth o le Caerdydd o fewn UE ac effaith hynny ar ei dinasyddion, o ran cymathu cymunedau newydd a datblygu gwybodaeth am ein hanes ein hunain”

Mynychodd Ffion Fielding, swyddog dysgu yn Amgueddfa Hanes Genedlaethol San Ffagan, weithdy ynghylch dysgu gydol oes amgueddfa yn yr Iseldiroedd. Roedd unigolion o'r Iseldiroedd, yr Eidal, Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Tsiec, Awstria, Slofenia a Malta wedi mynychu'r cwrs. Dywedodd “rhoddodd bersbectif newydd i mi, gan newid y ffordd yr ydw i'n ystyried fy ngwaith o ganlyniad i'r ffaith bod y blaenoriaethau a'r materion y mae'r unigolion o'r gwledydd eraill yn eu hwynebu mor wahanol i'm rhai i – cyfle i ehangu fy ngorwelion heb os nag oni bai!”

**Rhaglen Transversal**

Mae Rhaglen Transversal yn cynorthwyo gweithwyr addysg a hyfforddiant proffesiynol yn y DU i gyfnewid arbenigedd ar draws Ewrop. Roedd cyfranogiad sefydliadau Cymreig yn y Rhaglen yn gymharol uchel yn 2007, ond fe'i gwelwyd yn gostwng yn ystod 2008 a 2009, fodd bynnag, adlewyrchir y duedd hon ar draws y DU ac mae o ganlyniad i newidiadau a wnaethpwyd i gyllideb y rhaglen. Gyda'r cyllid pellach sydd ar gael tan ddiwedd y flwyddyn, mae cyfle o hyd i sefydliadau yng Nghymru i fanteisio ar gyllid ac i gymryd rhan mewn ymweliad astudio.

Mae'r rhaglen yn cynnig y cyfleoedd canlynol ar gyfer sefydliadau addysg a hyfforddiant:

**Ymweliadau Astudio** i weithwyr addysg a hyfforddiant galwedigaethol arbenigol proffesiynol, sy'n gallu treulio hyd at wythnos mewn gwlad Ewropeaidd arall yn cymryd rhan mewn rhaglen o weithgareddau a drefnwyd ac sy'n ymwneud â mater penodol o fewn addysg. Mae'r tabl isod yn cynnig dadansoddiad o nifer a chanran y ceisiadau a gymeradwywyd ar draws y DU:

*Tabl 13 – Ymweliadau Astudio*

| | Cyfanswm | Cymru | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Tiriogaethau Tramor* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | **312**<br>**100%** | 44<br>14% | 212<br>68% | 35<br>11% | 18<br>6% | 3<br>1% |
| 2008 | **239**<br>**100%** | 19<br>8% | 168<br>70% | 26<br>11% | 26<br>11% | 0<br>0% |
| 2009 | **254**<br>**100%** | 17<br>7% | 191<br>75% | 35<br>14% | 11<br>4% | 0<br>0% |
| 2010 (hyd yn hyn) | **105**<br>**100%** | 7<br>7% | 72<br>69% | 14<br>13% | 12<br>11% | **0**<br>**0%** |

*Mae Tiriogaethau Tramor yn diriogaethau tramor y DU y maent yn gymwys i gymryd rhan yn y rhaglenni hefyd: Anguriol, Tiriogaeth Antarctig Prydain, Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India, Ynysoedd Prydeinig y Wyryf, Ynysoedd Cayman, Ynysoedd Malfinas, Montserrat, St Helena a'i Dibynwledydd (Ynys Ascension a Tristan da Cunha), Ynysoedd Turks a Caicos, Ynys Pitcairn, Ynysoedd De Georgia a De Sandwich.

Gan bod dau dyddiad cau y flwyddyn yn bodoli ar gyfer Ymweliadau Astudio, nid ydym yn gallu darparu ffigurau 'tebyg at eu tebyg' tan ddiwedd 2010. Mae'r ystadegau yn dangos bod canran iach (7%) o'r ceisiadau a gymeradwywyd hyd yn hyn, yn dod o Gymru. Gyda dyddiad cau 15 Hydref, mae'n debygol bod nifer go iawn y prosiectau cymeradwyedig yn 2010 yn debygol o godi ymhellach.

Mae **Cynnal Ymweliadau Astudio** yn cynnig y cyfle i sefydliadau gynnal rhaglen o weithgareddau wedi'u seilio ar bwnc addysgol penodol am hyd at wythnos. Mae'r sawl sy'n eu cynnal yn gyfrifol am drefnu rhaglen o ymweliadau gyda sefydliadau a llunwyr polisi perthnasol gan gynnwys ymweliadau ag ysgolion, colegau a sefydliadau hyfforddi.

*Tabl 14 – Y sawl sy'n cynnal Ymweliadau Astudio*

| | Cyfanswm | Cymru | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban |
|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | **28**<br>**100%** | **1**<br>**4%** | 21<br>75% | 1<br>4% | 5<br>18% |
| 2008 | **24**<br>**100%** | **4**<br>**17%** | 15<br>63% | 2<br>8% | 3<br>13% |
| 2009 | **24**<br>**100%** | 4<br>17% | 19<br>79% | 1<br>4% | 0<br>0% |
| 2010 | **I'w gadarnhau** | **I'w gadarnhau** | **I'w gadarnhau** | **I'w gadarnhau** | **I'w gadarnhau** |

Cymeradwywyd nifer gymharol uchel o sefydliadau Cymreig i gynnal Ymweliadau Astudio yn ystod rownd ddethol 2009 (ar gyfer ymweliadau i'w cynnal rhwng mis Medi 2010 a mis Mehefin 2011) ac mae hyn yn hynod o galonogol.

## Astudiaethau Achos

Dywedodd Bill Chapman, Rheolwr Buddsoddwyr mewn Pobl, Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Roeddwn wrth fy modd i gael cymryd rhan mewn Ymweliad Astudio i Milan yn Lombardy, gan ystyried hyfforddiant ar gyfer gweithwyr hŷn. Er bod ein sefydliadau a'n

strwythurau cymdeithasol yn gwahaniaethu, gwelais elfennau tebyg a oedd yn drawiadol.  Caiff hyfforddiant galwedigaethol ei ddatganoli i'r prif awdurdod dros Lombardy.  Roedd gen i ddiddordeb i weld sut y mae eu darpariaeth datblygu rheolwyr yn ystyried argaeledd staff, a'i fod ar gael ar benwythnosau.  Rydw i wedi cyfleu'r hyn a ddysgais i drafodaethau ynghylch ein darpariaeth ni.  Mae'n galonogol gwybod hefyd ein bod ni yng Nghymru wedi nodi sialensiau tebyg a'n bod wedi pennu datrysiadau tebyg".

## Sialensiau

Mae Rhaglenni Leonardo, Grundtvig a Transversal yn wynebu dwy sialens allweddol.  Y cyntaf yw bod y galw am gyllid ar draws y DU yn uwch na'r gyllideb gyffredinol sydd ar gael ar gyfer y DU.  Mae hyn wedi arwain at ostyngiadau sylweddol o ran y grantiau a ddyfarnwyd, a'r cyfraddau llwyddo cymharol isel mewn rhai o'r rhaglenni.  Yr ail sialens yw'r argraff bod cyllid Ewropeaidd yn fiwrocrataidd ac yn gymhleth i'w weinyddu.  Mae Ecorys yn ymdrechu i oresgyn yr argraffiadau hyn trwy gynnig arweiniad eglur, trwy drefnu amrediad o ddigwyddiadau gwybodaeth a sesiynau cynghori ar draws y DU, yn ogystal â gweithio gydag aelodau'r grŵp cynghori i hyrwyddo'r rhaglenni i gynulleidfaoedd newydd.